**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN ..........**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN/<br>THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **ADRODDIAD DIWYGIEDIG I'R CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD** | **08/03/2011** |
| **PWNC** | **PROTOCOLAU RHEOLAETH WLEIDYDDOL** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO** | **CYNGHORYDD CLIVE McGREGOR - ARWEINYDD Y CYNGOR** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **DAVID BOWLES – RHEOLWR - GYFARWYDDWR DROS DRO** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **LYNN BALL – CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL A PHWYLLGORAU/SWYDDOG MONITRO (Ffôn/Tel: 01248 752586)** |

1. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod pwysigrwydd Rheolaeth Wleidyddol a'r angen i gael fframweithiau cydnabyddedig ac effeithiol fel y gellir gwneud penderfyniadau busnes gwleidyddol mewn ffordd drefnus ac aeddfed.

2.1 Cyflogwyd Ian Bottrill, Rheolwr Datblygu ContinYou Cymru, i arwain ar y broses hon ac yn ystod Gorffennaf, Awst ac yn gynnar ym Medi 2010 fe ymgynghorodd yn fanwl gydag Aelodau, yn unigol, fel Arweinyddion Grwpiau, ac mewn Grwpiau a hefyd gyda Phrif Swyddogion. Trefnwyd 18 cyfarfod.

2.2 Yn dilyn y broses o drafodaeth paratodd Ian Bottrill Brotocolau drafft a drafodwyd mewn cyfarfod i'r holl Gynghorwyr cyn cyfarfod y Cyngor Sir ar 14 Medi 2010. Diwygiwyd y Protocolau drafft fel y dymunwyd ar ôl hynny.

2.3 Ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol cael "gweithdy" ar y Protocolau cyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor. Trefnwyd y gweithdy ar 23 Tachwedd 2010 ond bu rhaid iddo gael ei ohirio a'i aildrefnu i ganiatáu i ffurf y Protocolau drafft gael ei diwygio ar gyfer eu cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

2.4 Aildrefnwyd y gweithdy i 19 Ionawr 2011 a gwahoddwyd yr holl Aelodau. Yn ystod y cyfarfod hwnnw dywedwyd bod yr holl Grwpiau eisiau cyfle i ystyried y Protocolau ymhellach. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, anfonwyd llythyr ar 21 Ionawr 2011 i'r holl

Arweinyddion Grwpiau i gadarnhau'r amserlen i'r Protocolau gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Chwefror a chan y Cyngor ar 8 Mawrth ac yn gofyn am ymatebion gan y Grwpiau erbyn 2 Chwefror 2011. Ni dderbyniwyd yr un ymateb.

2.5 Mae'r Protocolau nawr yn ymddangos fel **ATODIAD A**.

2.6 Ystyriwyd y Protocolau hyn gan y Pwyllgor Safonau ar 2 Chwefror 2011; ac fe'u cefnogwyd. Roedd y Pwyllgor Safonau yn synnu ynghylch dewis y Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn hytrach na Chadeirydd y Cyngor Sir yn 2.1.6 a 4.1.6 sy'n faterion a all gael eu hystyried yn benderfyniadau gwleidyddol.

3. Mae'r Protocolau hyn, fel y dywedodd Ian Bottrill yn y cyfarfod ar 19 Ionawr 2011, yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau ac nid â sylwedd y penderfyniadau hynny. Mae'r Protocolau yn gam pwysig o gymorth i sefydlu a chynnal perthynas waith gwell rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol unigol.

**Mae cymal 4 yn gymal newydd**

4.1 Mae newidiadau ac ychwanegiadau wedi cael eu gwneud i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Chwefror 2011, yn dilyn trafodaethau'r cyfarfod hwnnw a chyfarfod y Cyngor Sir ar 8 Chwefror 2011.

Mae'r Protocolau yn Atodiad A (2.5 uchod) wedi cael eu newid fel a ganlyn:-

Protocol 2.1.3 - er mwyn osgoi camddealltwriaeth ychwanegwyd at y cymal hwn i adlewyrchu cyngor Ian Bottrill

Protocol 2.1.6 - newidiwyd "Cadeirydd y Pwyllgor Safonau" i "Cadeirydd y Cyngor Sir".

Protocol 4.1.6 - newidiwyd "Cadeirydd y Pwyllgor Safonau" i "Cadeirydd y Cyngor Sir" ac fe ychwanegwyd at is-gymal (b).

4.2 Ystyriodd y Pwyllgor Safonau y Protocolau yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2011 a'r canlynol yw darn o gofnodion drafft y cyfarfod hwnnw

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau y mater hwn am gryn amser a dynododd ar y terfyn:-

1. Dylai'r Protocolau fod yn rheolau (nid yn arweiniad) a dylent fod yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.

2. Roedd yn synnu mai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac nid y Cadeirydd y Cyngor Sir oedd wedi ei grybwyll ym mharagraffau 2.1.6 a 4.1.6 oherwydd gallai cael ei weld fod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cael ei dynnu mewn i anghydfod penderfyniad gwleidyddol.

3. Ynglŷn â 2.1.1 dylai'r nifer x o ddyddiau fod yn 5.

4. Ystyriwyd bod 2.1.8 yn ddefnyddiol.

**Argymhellion**

1. Gwahoddir y Pwyllgor Gwaith i argymell i'r Cyngor:-

    1.1 A ddylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau fod â rhan yn 2.1.6 ac/neu 4.1.6

    1.2 I fabwysiadu'r Protocolau fel maent wedi cael eu drafftio yn Atodiad A i mewn i Gyfansoddiad y Cyngor yn 5.8

    1.3 I awdurdodi swyddogion i wneud yr holl welliannau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys rhoi'r Protocolau yn 5.8.

2. Gwahoddir y Cyngor i benderfynu:-

    2.1 A ddylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau fod â rhan yn 2.1.6 ac/neu 4.1.6

    2.2 I fabwysiadu'r Protocolau fel maent wedi cael eu drafftio yn Atodiad A i mewn i Gyfansoddiad y Cyngor yn 5.8

    2.3 I awdurdodi swyddogion i wneud yr holl welliannau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys rhoi'r Protocolau yn 5.8.

**ATODIAD / ENCLOSURE A**

**PROTOCOLAU RHEOLAETH WLEIDYDDOL / POLITICAL MANAGEMENT PROTOCOLS**

MYNEGAI / INDEX

1. Canllawiau ar Grwpiau / Guidance on Groups

2. Protocol ynghylch penodi Cynghorwyr i seddau ar Bwyllgorau gan gynnwys trefn ar gyfer dyrannu i Gadeiriau ac Is-Gadeiriau (Yn amgau Egwyddorion ar gyfer Dyrannu Cadeiriau ac Is-Gadeiriau)
Protocol on the appointment of Councillors to Committee seats including mechanism for allocation of Chairs and Vice Chairs (Enclosing Principles for allocation of Chairs and Vice Chairs)

3. Protocol ar gyfer Cadeirio'r Cyngor / Chairing the Council Protocol

4. Protocol ar benodiadau'r Cyngor i gyrff allanol / Protocol on Council appointments to outside bodies

5. Cytundeb y Gynghrair ar gyfer rheoli'r Pwyllgor Gwaith / Alliance agreement for management of the Executive

6. Protocol ar gyfer gweithredu'r Pwyllgor Gwaith / Protocol on operation of the Executive

Canllawiau ar Grwpiau

1. Mae grwpiau yn rhan annatod o reolaeth wleidyddol y Cyngor. Mae rhedeg busnes y Cyngor yn effeithiol yn dibynnu ar Grwpiau (bônt yn grwpiau rheoli neu'n grwpiau gwrthblaid) yn gweithredu mewn dull effeithlon ac effeithiol. Mae'r Cyngor yn argymell y canllawiau hyn i'r Grwpiau fel ffordd o weithredu yn y modd hwn.

*Cyfarfod Grŵp*

2. Ac eithrio lle mae rheolau'r blaid wleidyddol y mae'r grŵp yn perthyn iddi neu lle mae rheolau sefydlog y Grŵp ei hun yn dweud fel arall, dylid ethol Cadeirydd y Grŵp gan ac o blith ei aelodau mewn cyfarfod cyffredinol.

3. Ac eithrio lle mae rheolau'r blaid wleidyddol berthnasol neu reolau sefydlog y Grŵp ei hun yn dweud fel arall, ni ddylai Cadeirydd y Grŵp fod yn Arweinydd y Grŵp. Pwrpas hyn yw sicrhau bod awdurdod yn cael ei rannu'n rhesymol yn y Grŵp ac i alluogi'n well yr Arweinydd i gymryd rhan mewn ac arwain trafodaethau o fewn cyfarfodydd y Grŵp.

*Ysgrifennydd y Grŵp*

4. Dylai pob Grŵp ethol ysgrifennydd Grŵp. Dylai'r Ysgrifennydd Grŵp baratoi a dosbarthu rhaglen ar gyfer pob cyfarfod o'r Grŵp ymlaen llaw.

*Gwneud penderfyniadau gan y Grŵp*

5. Dylai pob aelod o'r Grŵp deimlo eu bod yn gallu mynegi eu barn mewn cyfarfod Grŵp yn agored a heb ofn dial. Dylai aelodau'r Grŵp drin ei gilydd gyda pharch, heb fod yn ymosodol, heb ymosod yn bersonol a heb fygwth.

6. Fodd bynnag, os bydd aelodau'r Grŵp yn mynegi anghytundeb gyda'r Grŵp neu ei benderfyniadau, bydd hynny'n tanseilio effeithiolrwydd a hygrededd y Grŵp a'r aelod sy'n mynegi'r anghytundeb.

7. Dylid dod i benderfyniadau trwy gonsensws neu bleidlais fwyafrifol. Gall y Grŵp fabwysiadu rheolau sefydlog model a ddarperir gan blaid wleidyddol genedlaethol neu ddrafftio ei reolau gweithredu ei hun.

8. Unwaith y bydd y Grŵp wedi gwneud penderfyniad, dim ond y Grŵp ddylai newid y penderfyniad hwnnw. Oherwydd hynny, efallai y byddai o fudd caniatáu elfen o hyblygrwydd yn y polisi neu'r safbwynt fel bod modd i Arweinydd y Grŵp ymateb i newidiadau mewn sefyllfaoedd.

9. Dylai aelodau Grŵp nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfod Grŵp dderbyn penderfyniad a wnaed gan y Grŵp yn eu habsenoldeb. Os bydd aelod o'r Grŵp yn teimlo'n wirioneddol na all gydymffurfio gyda phenderfyniad o'r fath, yna dylai roi gwybod i Arweinydd y Grŵp ar unwaith.

10. Gyda materion brys neu achosion lle nad oes modd i Arweinydd y Grŵp ymgynghori â'r Grŵp cyn dod i benderfyniad neu fynegi barn, yna dylai Arweinydd y Grŵp:-

    (a) egluro nad yw ef/hi wedi ymgynghori gyda'u Grŵp.

(b) ymgynghori gyda'r Grŵp cyn gynted ag y bo modd.

11. Ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud â busnes arferol y Cyngor, ni ddylai aelodau un Grŵp fynd at aelodau Grŵp arall i berwyl gwleidyddol heb roi gwybod i'r ddau Arweinydd Grŵp yn gyntaf.

12. Ni ddylai aelod o Grŵp geisio gorfodi chwip (neu gyfarwyddyd i aelodau'r Grŵp bleidleisio mewn ffordd benodol) mewn perthynas ag unrhyw faterion rheoleiddio, lled-farnwrol neu archwilio).

Protocol ynghylch penodi Cynghorwyr i seddau ar Bwyllgorau ac i Gadeiriau ac Is-Gadeiriau (Yn amgau Egwyddorion ar gyfer Dyrannu Cadeiriau ac Is-Gadeiriau)

1. Bydd Arweinyddion Grwpiau yn rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am enwau Cynghorwyr yn eu Grwpiau o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyfarfod blynyddol y Cyngor.

2. Bydd y Swyddog Monitro yn paratoi ac yn anfon matrics at yr holl Arweinyddion Grwpiau a Chynghorwyr nad ydynt yn aelod o Grŵp (Aelodau Digysylltiad) yn nodi cydbwysedd gwleidyddol y Grwpiau a'r modd y bwriedir gosod seddau i bob Grŵp a phob Cynghorydd Digysylltiad o leiaf 3 o ddiwrnodau gwaith cyn cyfarfod blynyddol y Cyngor.

3. Bydd Cadeirydd ymadawol y Cyngor yn cyfarfod gyda'r Aelodau Digysylltiad i sefydlu eu dymuniadau mewn perthynas â dyrannu seddau a phenodiadau. Dyrennir seddau i'r Aelodau Digysylltiad yn ôl eu dymuniad lle mae hynny'n bosib. Mae cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i bleidiau gwleidyddol ond nid i Aelodau Digysylltiad. Bydd yr arfer sefydledig o ddyrannu i Aelodau Digysylltiad y seddau hynny na allant gael eu dyrannu i bleidiau yn parhau a bydd buddiannau'r Aelodau Digysylltiad yn cael eu cynrychioli gan Gadeirydd ymadawol y Cyngor.

   Bydd y broses o ddyrannu rhwng Aelodau Digysylltiad fel a ganlyn:-

   a. Bydd Aelodau Digysylltiad yn cytuno i gyd gyda'i gilydd, os yn bosib, eu dewisiadau o'r seddau sydd ar gael.

   b. Bydd Aelodau Digysylltiad yn cynnig eu dewisiadau yn ysgrifenedig i Gadeirydd ymadawol y Cyngor a bydd ef/hi yn penderfynu ar y dyraniad terfynol, wrth gymryd i ystyriaeth unrhyw fater perthnasol ynglyn ag addasrwydd yr aelodau hynny i'r seddau pwyllgorau a awgrymwyd. Bydd yr asesiad hwn o addasrwydd yn cynnwys y profiad a'r sgiliau sydd eu hangen i ymgymryd â'r rôl ynghyd ag unrhyw ystyriaethau eraill sydd yn briodol.

   c. Bydd Cadeirydd ymadawol y Cyngor yn cyflwyno'r enwebiadau terfynol i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor o fewn y cyfyngiad amser a nodir. Wrth wneud enwebiadau i'r Rheolwr Gwasanaeth Pwyllgor a dyrannu seddau bydd Cadeirydd ymadawol y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth unrhyw faterion perthnasol. Os ydyw Cadeirydd ymadawol y Cyngor yn aros am fanylion y dewisiadau gan unrhyw Aelod Digysylltiad, ac onid yw'r rhain yn cael eu derbyn erbyn y dyddiad cau, yna bydd y dyraniad yn cael ei wneud gan Gadeirydd ymadawol y Cyngor â'i ddisgresiwn absoliwt.

4. Bydd Arweinyddion Grwpiau a Chadeirydd ymadawol y Cyngor yn rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am enwau'r Cynghorwyr hynny a benodir i bob Pwyllgor ac yn cyflwyno eu cynigion ynghylch pa Gynghorwyr ddylai fod yn Gadeirydd ac Is-Gadeirydd pob Pwyllgor o leiaf 1 diwrnod gwaith cyn cyfarfod blynyddol y Cyngor.

5. Bydd y Swyddog Monitro yn galw cyfarfod o'r Arweinyddion Grwpiau, Arweinydd y Cyngor a bydd Cadeirydd ymadawol y Cyngor yn ceisio cytuno ar y dyraniad o seddi, penodi Cynghorwyr a phenodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i bob Bwyllgor. Bydd Cadeirydd ymadawol y Cyngor yn cysylltu gydag ac yn cynrychioli'r diddordebau'r Cynghorwyr Digysylltiad.

6. Cadeirir y cyfarfod gan Gadeirydd y Cadeirydd y Cyngor Sir a fydd yn ceisio dod i gytundeb gyda'r Arweinyddion Grwpiau a Chadeirydd ymadawol y Cyngor ynghylch y dyraniad o seddau a phenodi Cynghorwyr.

7. Bydd y Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod blynyddol y Cyngor yn nodi'r cynigion y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod uchod. Bydd cyfarfod y Cyngor yn penodi Cynghorwyr i Bwyllgorau.

8. Bydd pob Pwyllgor yn cwrdd ar unwaith ar ôl cyfarfod y Cyngor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd ei hun.

Egwyddorion ar gyfer Dyrannu Cadeiriau ac Is-Gadeiriau

Er mwyn gweithredu ar ofynion llythyr y Gweinidog dyddiedig 4 Mawrth 2010, dylid defnyddio'r egwyddorion canlynol wrth ddyrannu Cadeiriau ac Is-Gadeiriau:

- Y Pwyllgorau Sgriwtini Corfforaethol ac Archwilio i gael eu Cadeirio gan y Gwrthbleidiau.
- Cadeiriau Sgriwtini Corfforaethol ac Archwilio i gael eu dyrannu i'r ddau grŵp mwyaf yn y Gwrthbleidiau (neu'r ddwy Gadair i'r un Grŵp os oes ond un Grŵp o'r fath). Y Grŵp mwyaf yn y Gwrthbleidiau fydd â'r dewis cyntaf.
- Bydd Cadeiriau ac Is-Gadeiriau'r holl Bwyllgorau eraill a chanddynt lwfansau ar gyfer cyfrifoldeb arbennig yn cael eu rhannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol (gweler yr enghraifft sydd ynghlwm) PAPUR 1.
- Bydd yr Aelodau hynny sydd ddim yn aelod o unrhyw Grŵp ac sydd yn cefnogi'r weinyddiaeth yn ddiamwys yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth weithio allan nifer y Cadeiriau a'r Is-Gadeiriau fydd yn cael eu dyrannu i'r Weinyddiaeth. Bydd yr holl Aelodau eraill sydd ddim yn aelod o unrhyw Grŵp yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth weithio allan nifer y Cadeiriau a'r Is-Gadeiriau fydd yn cael eu dyrannu i'r Gwrthbleidiau.
- Lle mae hynny'n bosibl, bydd yr Is-Gadeirydd yn Aelod "o ochr arall y rhaniad gwleidyddol" i Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw.
- Pan ddefnyddir cydbwysedd gwleidyddol i benodi i Gadeiriau ac Is-Gadeiriau, yna bydd unrhyw ffracsiynau a grëir rhwng .1 a .4 yn cael ei rowndio i lawr ac unrhyw ffracsiwn a grëir rhwng .6 a .9 yn cael ei rowndio at i fyny. Bydd unrhyw ffracsiwn o .5 yn cael ei rowndio i fyny neu i lawr o blaid y Gwrthbleidiau.
- Pan fydd Cadeiriau ac Is-Gadeiriau yn cael eu dyrannu a dim cytundeb rhwng y Weinyddiaeth a'r Gwrthbleidiau, yna dewisir o'u plith yn eu tro. Felly, bydd y Weinyddiaeth yn dewis y Gadair gyntaf a'r Gwrthbleidiau'n dewis yr ail ac felly ymlaen hyd oni fydd yr holl Gadeiriau wedi cael eu dyrannu yn unol â'r nifer a ganiateir i bob ochr. Ni fydd y naill ochr na'r llall yn ymyrryd yn y dewisiadau a wneir gan yr ochr arall a bydd hyn yn ymestyn i'r broses benodi ffurfiol yn y Pwyllgorau perthnasol.
- Bydd y Grwpiau gwleidyddol yn y Weinyddiaeth a'r rheini yn y Gwrthbleidiau yn enwebu aelodau o'u plith i wasanaethu fel Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion yn unol â'r dewisiadau a wnaed a thrwy gytundeb o fewn y Weinyddiaeth, ac o fewn y Gwrthbleidiau, yn y drefn honno.
- Os oes unrhyw anghydweld yn y Weinyddiaeth neu yn y Gwrthbleidiau ynghylch pa un o'u haelodau fydd yn cael eu penodi i Gadair neu Is-Gadair, yna bydd y broses o weithio allan y cydbwysedd gwleidyddol ac o ddewis Cadeiriau ac Is-Gadeiriau yn cael ei gwneud yn lle hynny ar sail grŵp wrth grŵp gan gychwyn gyda'r Grŵp mwyaf yn y lle cyntaf hyd oni fydd yr holl Gadeiriau wedi cael eu dyrannu yn unol â'r niferoedd a ganiateir i bob Grŵp. Os yw'r Grwpiau sydd â'r hawl i ddewis Cadair neu Is-Gadair â niferoedd cyfartal, yna bydd Arweinyddion y Grwpiau hynny yn cytuno ymysg ei gilydd pa grŵp fydd yn cael y dewis cyntaf, yr ail a'r trydydd ddewis ac ati. Oni fydd modd cytuno, bydd Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu ar y drefn ffafriaeth drwy dynnu lot(iau).
- Yn achos yr holl Bwyllgorau sydd ddim â lwfans cyfrifoldeb arbennig, yna mater i'r Pwyllgorau perthnasol fydd dewis/penodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion.

- Os yw'r holl grwpiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith, yna bydd y Cadeiriau a'r Is-Gadeiriau yn cael eu dyrannu i bob Grŵp yn eu tro gan gychwyn gyda'r mwyaf ac wedyn i'r mwyaf ond un ac yn y blaen hyd oni fydd pob Grŵp wedi disbyddu ei ddyraniad.

HAPUR | ENC 1

**POLITICAL BALANCE - ALLOCATION OF CHAIRS AND VICE CHAIRS**

APPLIES TO THOSE COMMITTEES WHERE A SPECIAL RESPONSIBILITY ALLOWANCE IS PAYABLE
ASSUMES UNAFFILIATED WHO HAVE NOT ALIGNED THEMSELVES COUNT AS OPPOSITION FOR PLACES AND CHAIRS
ASSUMES THAT PLANNING WILL MEET AS LICENCING WHEN NECESSARY SO NO ADDITIONAL ALLOWANCE OR PLACE AS CHAIRMAN OF APPEALS
EXCLUDES AD HOC COMMITTEES SUCH AS PAY AND GRADING
VC'S NO LONGER ELIGIBLE FOR PAYMENT OF AN ALLOWANCE

**STATE OF THE PARTIES**

| | | |
|---|---|---|
| **ADMINISTRATION** | | |
| GROUP 1 | 7 | |
| GROUP2 | 7 | |
| GROUP 3 | 5 | |
| ALIGNED UNAFFILIATED | 1 | |
| **TOTAL & PROPORTION** | 20 | 0.5 |
| **OPPOSITION** | | |
| GROUP 4 | 2 | |
| GROUP 5 | 5 | |
| GROUP 6 | 10 | |
| ALIGNED UNAFFILIATED | 0 | |
| UNAFFILIATED | 3 | |
| **TOTAL & PROPORTION** | 20 | 0.5 |
| **GRAND TOTAL** | **40** | |

**ALLOCATION OF CHAIRS AND ALLOWANCES**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ALLOWANCES - AUTOMATIC** | | | |
| CABINET | | 10 | |
| OPPOSITION LEADER | | 1 | |
| **CHAIRS AND ALLOWANCES TO OPPOSITION MEMBERS AS OF RIGHT** | | | |
| CHAIR OF AUDIT | | 1 | |
| CHAIR OF THE PRINCIPAL SCRUTINY - CORPORATE & CALL IN COMMITTEE | | 1 | |
| | ALLOWANCES | 13 | |
| **ALLOCATION OF REMAINING CHAIRS** | | | |
| | | **Chairs** | **VC's** |
| AUDIT | | ABOVE | 1 |
| PRINCIPAL SCRUTINY/CO-ORDINATING COMMITTEE | | ABOVE | 1 |
| PLANNING | | 1 | 1 |
| LICENCING | | see note below | |
| EDUCATION | | 1 | 1 |
| ENVIRONMENT | | 1 | 1 |
| SOCIAL CARE | | 1 | 1 |
| ECONOMIC | | 1 | 1 |
| | **TOTAL** | **5** | **7** |

**ALLOCATION OF CHAIRS NEEDS TO BE BASED UPON PROPORTIONS AND WOULD BE**

| | | |
|---|---|---|
| ADMINISTRATION | 2.5 | 3.5 |
| OPPOSITION | 2.5 | 3.5 |

ON THE BASIS THAT THE OPPOSITION ARE 2.5 THAT WILL BE ROUNDED UP TO 3.0 AND ADMINISTRATION DOWN TO 3
THE SAME ROUNDING PRINCIPLE APPLY TO V.C's
IF THE OPPOSITION HADE BEEN 2.49 THEY WOULD ONLY HAVE HAD 2 CHAIRS

**RULES FOR ALLOCATION**

LEADERS SHOULD SEEK TO AGREE THE BEST CHAIRS FOR EACH COMMITTEE HAVING REGARD FOR THE BALANCE CALCULATIONS
IN THE EVENT OF NO AGREEMENT THEY ARE ALLOCATED IN TURN - WITH THE ADMINISTRATION SELECTING THE FIRST

Protocol Cadeirio'r Cyngor

1. Bydd y Cadeirydd, neu yn ei (h)absenoldeb, yr Is-Gadeirydd yn cymryd y protocol hwn i ystyriaeth wrth gyflawni ei swyddogaeth o lywyddu dros Gyfarfod y Cyngor.

2. Bydd y Cadeirydd yn galw cyfarfod cynllunio rhaglen rhwng un a dau ddiwrnod gwaith cyn pob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Arweinydd y Cyngor, Arweinyddion pob Grŵp, y Rheolwr-gyfarwyddwr a'r Swyddog Monitro i'r cyfarfod. Rhaid i rheini a wahoddir fynychu'n bersonol neu anfon cynrychiolydd. Gall y Cadeirydd hefyd wahodd unrhyw bobl eraill i'r cyfarfod fel y gwêl ef/hi yn briodol.

3. Pwrpas y cyfarfod cynllunio rhaglen fydd cynorthwyo'r Cadeirydd i lywyddu dros gyfarfodydd y Cyngor mewn ffordd deg a diduedd fel bod modd cyflawni busnes yn effeithlon a chan gymryd i ystyriaeth hawliau Cynghorwyr a budd y gymuned.

4. Yn benodol, bydd y Cadeirydd yn sefydlu, trwy drafodaeth gydag Arweinydd y Cyngor ac Arweinyddion Grwpiau:-

   a. pwy sy'n bwriadu cynnig ac eilio'r cynigion;

   b. geiriad cynigion o'r fath, a

   c. unrhyw feysydd y mae'n debygol y bydd cytundeb neu anghytundeb yn eu cylch mewn perthynas â chyflawni busnes yng Nghyfarfod y Cyngor.

5. Ni fydd y Cadeirydd yn cwrdd gydag unrhyw aelod neu aelodau o'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â chyflawni busnes mewn cyfarfod o'r Cyngor, ac eithrio mewn cyfarfod cynllunio rhaglen neu gyfarfod Grŵp Gwleidyddol.

6. Wrth lywyddu dros Gyfarfod o'r Cyngor, bydd y Cadeirydd yn ymarfer ei hawliau a dyletswyddau heb ystyried eu haelodaeth o unrhyw Grŵp Gwleidyddol a bydd yn ceisio, pob amser, hyrwyddo buddiannau'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

7. Wrth lywyddu dros gyfarfod o'r Cyngor, bydd y Cadeirydd yn ymarfer ei bwerau a dyletswyddau a Rheolau Gweithdrefn y Cyngor mewn ffordd weithredol, deg a diduedd fel bod modd cyflawni busnes yn effeithlon a chan gymryd i ystyriaeth hawliau Cynghorwyr a budd y gymuned.

8. Bydd y Cadeirydd yn ystyried ac yn adolygu ei sgiliau a'i allu/gallu ei hun ar gyfer cyflawni ei rôl ac mewn cydweithrediad gyda'r Swyddog Monitro a bydd yn ceisio rhoi sylw i unrhyw feysydd lle mae angen hyfforddiant a datblygu.

Protocol ar benodi Cynghorwyr i gyrff allanol

1. Bydd Cyfarfod y Cyngor (yn achos swyddogaethau a gadwyd iddo neu benodiadau y cyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Gwaith) a'r Pwyllgor Gwaith (ymhob achos arall) yn cymryd y protocol hwn i ystyriaeth wrth wneud penodiadau i gyrff allanol.

2. Bydd y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â phenodiadau a wnaed ganddynt, yn adolygu'r rhestr o gyrff allanol y gwnaed penodiadau iddynt bob 12 mis a bydd yn penderfynu mewn perthynas â phob corff allanol:-

   (a) a yw cynrychiolaeth y Cyngor yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau, ac os yw

   (b) pa Gynghorydd neu swyddog dylid eu penodi i'r corff hwnnw; a

   (c) dull ac amlder adrodd yn ôl gan y Cynghorydd a benodwyd.

3. Yn achos corff allanol y mae ei weithgareddau wedi eu cyfyngu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i un Ward (corff allanol lleol), bydd y Cynghorydd Ward fel arfer yn cael ei benodi/phenodi. Mewn Ward gyda mwy nac un Cynghorydd Ward, bydd y Cynghorwyr Ward yn cytuno pa un ohonynt a benodir.

4. Yn achos corff allanol y mae ei weithgareddau yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf ag ardal sy'n fwy nag un Ward (corff allanol strategol), bydd cadeirydd neu is-gadeirydd y Pwyllgor perthnasol, neu'r aelod portffolio yn achos penodiad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, yn cael eu penodi fel arfer.

5. Mewn achosion lle mae'r Cyngor yn penodi, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau fod penodiadau i gyrff allanol strategol yn adlewyrchu'r nifer gymharol o seddau sydd gan bob Grŵp ar y Cyngor a Chynghorwyr nad ydynt yn aelod o'r Grŵp.

6. Bydd Cadeirydd y Cyngor Sir yn ceisio datrys unrhyw anghydfod rhwng Grwpiau neu Gynghorwyr ynghylch unrhyw benodiad arfaethedig, gan gymryd i ystyriaeth, mewn perthynas â chyrff allanol strategol, unrhyw sylwadau a wnaed gan:-

   (a) ysgrifennydd pob Grŵp, ac

   (b) yr Aelodau Digysylltiad, iddo ef/iddi hi, Cadeirydd y Cyngor, yn gweithredu fel gwarcheidwad diddordeb yr holl Gynghorwyr, yn arbennig y rheini nad ydynt mewn Grŵp.

7. Rhaid i Gynghorwyr a benodwyd i gorff allanol lleol fynychu ei gyfarfodydd yn rheolaidd a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig cryno o leiaf unwaith bob 12 mis i'w gylchredeg i Gynghorwyr gan y Swyddog Monitro.

8. Bydd Cynghorwyr a benodwyd i gyrff allanol strategol yn adrodd i gyfarfod y Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith fel sy'n briodol.

9. Rhaid i Gynghorydd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corff allanol barhau i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, gan gynnwys datgan diddordebau personol ac/neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu.

10. Dylai Cynghorydd a benodwyd i gorff allanol geisio cynrychioli sylwadau a diddordebau'r Cyngor yn ei gyfanrwydd gan gynnwys ei bolisïau a'i benderfyniadau. Gall y Cynghorydd nodi bod eu barn eu hunain, neu farn eu Grŵp yn wahanol i safbwynt y Cyngor.

11. Dylai Cynghorydd a benodwyd i gorff allanol geisio cael brîff gan y Swyddogion Cyngor perthnasol cyn unrhyw gyfarfod arwyddocaol o'r corff dan sylw.

Cytundeb y Gynghrair ar gyfer rheoli'r Pwyllgor Gwaith

1. Mae'r Grwpiau Llafur, Plaid Cymru, Llais Môn a Menai ar y Cyngor (sef Grwpiau'r Gynghrair) yn cytuno y byddant yn cydymffurfio gyda'r cytundeb hwn.

*Cyfarfodydd Grwpiau'r Gynghrair*

2. Bydd Arweinyddion Grwpiau'r Gynghrair yn penodi aelod o un o'r Grwpiau hynny (y Cynullydd) i drefnu cyfarfodydd o holl aelodau Grwpiau'r Gynghrair (Cyfarfodydd Grwpiau'r Gynghrair). Ni fydd y Cynullydd yn Arweinydd Grŵp.

3. Y Cynullydd fydd yn cadeirio Cyfarfodydd Grwpiau'r Gynghrair.

4. Bydd y Cynullydd yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd o Grwpiau'r Gynghrair ac nid yn llai aml nag unwaith bob dau fis.

5. Y cworwm ar gyfer Cyfarfodydd Grwpiau'r Gynghrair fydd un aelod o bob un o Grwpiau'r Gynghrair.

6. Pwrpas Cyfarfod Grwpiau'r Gynghrair yw ystyried a nodi meysydd y mae Grwpiau'r Gynghrair yn cytuno arnynt a meysydd lle nad ydynt, o bosib, yn cytuno yn eu cylch.

*Cyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau'r Gynghrair*

7. Bydd Arweinyddion Grwpiau'r Gynghrair yn cyfarfod yn rheolaidd ac nid llai na bob mis.

*Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith*

8. Bydd Arweinydd y Cyngor, mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion Grwpiau'r Gynghrair, yn dynodi aelod o'r Pwyllgor Gwaith i reoli busnes y Pwyllgor Gwaith (Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith).

9. Bydd Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith yn ceisio hwyluso arweinyddiaeth effeithlon ac effeithiol y Cyngor yn ei gyfanrwydd a datblygu a gweithredu polisïau a chynigion drwy'r Pwyllgor Gwaith.

10. Bydd Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith yn:-

    (a) cynorthwyo'r Cynullydd i drefnu Cyfarfodydd Grwpiau'r Gynghrair ac yn gweithredu fel Ysgrifennydd y cyfarfodydd hynny;

    (b) sicrhau bod y Cynullydd yn cael ei friffio/ei briffio mewn da bryd ar raglen cyfarfodydd o Grwpiau'r Gynghrair sydd i'w cynnal;

    (c) mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion Grwpiau'r Gynghrair, sicrhau bod cymaint o aelodau o Grwpiau'r Gynghrair ag sy'n bosibl yn mynychu cyfarfodydd Grwpiau'r Gynghrair.

    (ch) sicrhau bod penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn cael eu gweithredu'n amserol.

(d) sicrhau bod aelodau'r Grwpiau Gynghrair sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwybod am y penderfyniadau a'r cynigion sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys cynhyrchu a chylchredeg bwletin rheolaidd ar faterion o'r fath;

(dd) sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cael gwybod am farn aelodau Grwpiau'r Gynghrair sydd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.

(e) cysylltu gydag aelodau Grwpiau'r Gynghrair ac Uwch Swyddogion i roi gwybod iddynt y rhesymau am y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith.

(f) cynorthwyo Arweinyddion Grwpiau'r Gynghrair i sicrhau y dilynir unrhyw raglen o gynigion neu bolisïau y cytunwyd arni ganddynt;

(ff) gweithio gydag Arweinyddion Grwpiau'r Gynghrair a'r Cynullydd i geisio datrys gwrthdrawiadau posibl o fewn y Gynghrair.

(g) sicrhau bod aelodau Grwpiau'r Gynghrair yn dilyn y cytundeb hwn

(ng) sicrhau bod aelodau Grwpiau'r Gynghrair yn dilyn unrhyw weledigaeth, neu werthoedd neu raglen o gynigion polisi y cytunwyd arni gan y Gynghrair.

(h) cysylltu gydag Arweinydd y Cyngor am gyfarfodydd anffurfiol preifat rheolaidd o aelodau'r Pwyllgor Gwaith.

*Datrys anghydfod – aelod o un o Grwpiau'r Gynghrair sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith.*

11. Oni fedr aelod o un o Grwpiau'r Gynghrair gefnogi penderfyniad neu gynnig y cytunwyd arnynt gan y Gynghrair, yna bydd yr aelod hwnnw yn rhoi gwybod i'w Arweinydd Grŵp ar unwaith. Bydd Arweinydd y Grŵp yn ceisio datrys y mater.

12. Oni fedr Arweinydd y Grŵp ddatrys y mater, bydd Arweinydd y Grŵp yn hysbysu Arweinydd y Cyngor a Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith ar unwaith.

13. Bydd Arweinydd y Cyngor, Arweinydd y Grŵp a Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod yr aelod perthnasol i ddatrys y mater. Gall yr aelod fynd ag aelod arall o'u dewis o'i Grŵp ei hun gyda nhw i'r cyfarfod.

14. Oni fedrir datrys y mater, fe'i cyfeirir i gyfarfod o Grŵp yr aelod. Bydd Arweinydd y Grŵp yn hysbysu Arweinydd y Cyngor a Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith am y canlyniad ar unwaith.

15. Bydd Arweinyddion Grwpiau'r Gynghrair wedyn yn penderfynu pa gamau, os oes eu hangen o gwbl, y dylid eu cymryd gan y Gynghrair.

*Datrys anghydfod – aelodau'r Pwyllgor Gwaith*

16. Oni fedr aelod o'r Pwyllgor Gwaith (gan gynnwys Arweinydd Grŵp) cefnogi penderfyniad neu gynnig y cytunwyd arnynt gan y Gynghrair, yna bydd yn rhoi gwybod i Arweinydd y Cyngor, Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith a, os yw hynny'n briodol, eu Harweinydd Grŵp ar unwaith.

[ychwanegu 4.4.2.5.5 at Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith –

Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymryd i ystyriaeth y Protocol ar weithrediad y Pwyllgor Gwaith a nodir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn]

Protocol ar weithrediad y Pwyllgor Gwaith

*Rhaglenni ac adroddiadau*

1. Bydd Arweinydd y Cyngor yn penderfynu ar y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr-gyfarwyddwr, y Swyddog Monitro ac Arweinyddion Grwpiau'r Gynghrair.

2. Bydd y Rheolwr-gyfarwyddwr yn cyhoeddi rhaglen cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ac yn ei hanfon at aelodau'r Pwyllgor Gwaith o leiaf 5 niwrnod cyn y cyfarfod.

3. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud ei holl benderfyniadau ar ôl ystyried adroddiad ysgrifenedig gan yr Aelod Portfolio a fydd yn:-

   (a) nodi pwy wnaeth y cynnig;

   (b) dangos beth fydd, neu beth sy'n debygol o ddigwydd, os cytunir ar y cynnig neu os na chytunir arno;

   (c) dangos pa uwch swyddogion yr ymgynghorwyd gyda nhw ynghylch cynnwys yr adroddiad a'u sylwadau;

   (d) nodi'r cefndir, yr opsiynau a'r cynnig mewn modd clir a chryno, fel arfer ni fydd yn hirach na thair tudalen A4.

4. Rhoddir sylw i eitemau ar y Rhaglen fel a ganlyn:-

   (a) caiff y cynnig ei gyflwyno gan yr Aelodau Portffolio ac, yn eu habsenoldeb nhw, gan Arweinydd y Cyngor;

   (b) bydd Arweinydd y Cyngor yn galw ar y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol neu swyddog a enwebwyd ganddo/ganddi i siarad os ydyw'n dymuno;

   (c) bydd Arweinydd y Cyngor yn galw ar unrhyw Gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith i siarad yn unol â pharagraffau 13, 14 neu 15 isod.;

   (d) bydd Arweinydd y Cyngor yn galw ar aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith i siarad os ydynt yn dymuno. Fel arfer, bydd pob aelod yn siarad unwaith mewn perthynas ag unrhyw fater.

   (e) bydd Arweinydd y Cyngor yn gal war yr aelod Portffolio i gau'r drafodaeth;

   (f) gwneir penderfyniad ar y cynnig.